------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mercher, 8 Hydref 2014**

Amser y cyfarfod:
**13.30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Agenda
(222)v2

**1 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth (45 munud)**
Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

**2 Cwestiynau i'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus (45 munud)**
Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

**3 Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol (15 munud)**

Gweld y Cwestiynau

**4 Cynnig i ddiddymu Rheoliadau Addysg (Sefydliadau Ewropeaidd) a Chymorth i Fyfyrwyr (Cymru) (Dirymu) 2014 (30 munud)**
**NNDM5582 Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 27.2:

Yn cytuno bod Rheoliadau Addysg (Sefydliadau Ewropeaidd) a Chymorth i Fyfyrwyr (Cymru) (Dirymu) 2014, a osodwyd gerbron y Cynulliad ar 18 Gorffennaf, yn cael eu dirymu.

**Dogfennau ategol:**

Rheoliadau Addysg (Sefydliadau Ewropeaidd) a Chymorth i Fyfyrwyr (Cymru) (Dirymu) 2014
Memorandwm Esboniadol (Saesneg yn unig)
Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

**5 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Cyllid ynghylch yr arferion gorau o ran y gyllideb (60 munud)**
**NDM5591 Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Yn cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar ei ymchwiliad i'r arferion gorau o ran y gyllideb, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Gorffennaf 2014.

Nodyn: Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 1 Hydref 2014

**Dogfennau Atodol**

Adroddiad y Pwyllgor Cyllid
Ymateb Llywodraeth Cymru

**6 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ynghylch gwasanaethau orthodontig yng Nghymru (60 munud)**
**NDM5590 David Rees (Aberafan)**

Yn cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar wasanaethau orthodontig yng Nghymru, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 15 Gorffennaf 2014.

Nodyn: Gosodwyd ymateb y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 1 Hydref 2014.

**Dogfennau Ategol**

[Adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol](#)
[Ymateb Llywodraeth Cymru](#)

**7 Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (60 munud)**
**NDM5593 Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Yn cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn croesawu bod Llywodraeth Cymru, ynghyd â Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, wedi sicrhau £95 miliwn o gyllid ychwanegol dros ddwy flynedd ar gyfer y Grant Amddifadedd Disgyblion yn y gyllideb newydd.

2. Yn croesawu bod cyllid hefyd wedi cael ei ymestyn i gynnwys Premiwm Disgyblion y Blynyddoedd Cynnar ar gyfer plant o dan 5 oed.

3. Yn cydnabod bod y cytundeb cyllidebol dwy flynedd yn helpu i fynd i'r afael â'r pryderon a fynegwyd gan ysgolion ym mlynyddoedd blaenorol y cynllun o ran sicrhau bod cyllid yn parhau.

4. Yn cydnabod pwysigrwydd y ddau gynllun o ran helpu i dorri'r cysylltiad rhwng tlodi a thangyflawni addysgol ac o ran cau'r bwlch cyrhaeddiad rhwng disgyblion o gefndiroedd difreintiedig a chefndiroedd mwy breintiedig.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Elin Jones (Ceredigion)**

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

1. Yn nodi'r toriad mewn termau real o £56 miliwn yng nghyllideb addysg y flwyddyn hon sy'n cynnwys toriadau o £5 miliwn i'r Grant Effeithiolrwydd Ysgolion a £10.7 miliwn i'r cynllun prentisiaeth Recriwtiaid Newydd.

2. Yn nodi toriadau pellach o £26.4 miliwn i addysg yn y gyllideb ddrafft o'i chymharu â'r gyllideb atodol ar gyfer mis Mehefin 2014.

3. Yn credu bod Llywodraeth Cymru wedi mynd yn groes i ysbryd cytundebau blaenorol ar gyllidebau ac yn gwrthod y syniad o dincera â'r gyllideb tra bod

diffygion sylfaenol yn parhau.

**Gwelliant 2 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi nad oes gwerthusiad ffurfiol o'r Grant Amddifadedd Disgyblion ar gael eto.

**8 Cyfnod Pleidleisio**

**9 Dadl Fer (30 munud)**
**NDM5594 Keith Davies (Llanelli)**

Adfywio Trefol 2.0 - Creu cymunedau trefol a chanol trefi cynaliadwy

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 14 Hydref 2014

# Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad a gyflwynwyd ar 1 Hydref 2014 i'w hateb ar 8 Hydref 2014

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**
**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

## Gofyn i'r Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth:

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

1. **Suzy Davies (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar sut y mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod cronfeydd yr UE yn cyrraedd y cymunedau y maent wedi'u bwriadu i'w helpu? OAQ(4)0456(FIN)

2. **Mark Isherwood (Gogledd Cymru): A wnaiff y Gweinidog amlinellu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru wrth ddyrannu'r gyllideb Cymunedau a Threchu Tlodi? OAQ(4)0459(FIN)**

3. **Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru):** Sut y mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod grantiau yn cael eu rheoli'n effeithiol? OAQ(4)0464(FIN)

4. **Janet Finch-Saunders (Aberconwy): Pa asesiad ariannol o gynigion arfaethedig i uno awdurdodau lleol a wnaed gan Lywodraeth Cymru wrth lunio'r gyllideb ddrafft? OAQ(4)0461(FIN)**

5. **Joyce Watson (Canolbarth a Gorllewin Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y dyraniad cyffredinol o'r gyllideb i'r portffolio Addysg a Sgiliau?** OAQ(4)0463(FIN)

6. **Peter Black (Gorllewin De Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad** ar sut y mae Llywodraeth Cymru yn ymdrin ag ariannu drwy gynyddrannau treth? OAQ(4)0448(FIN)

7. **Sandy Mewies (Delyn):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am bolisi Budd i'r Gymuned Llywodraeth Cymru? OAQ(4)0453(FIN)

8. **Christine Chapman (Cwm Cynon):** Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd i ymgynghori â phobl Cymru wrth baratoi ar gyfer cyllideb 2015-16? OAQ(4)0457(FIN)

9. **Keith Davies (Llanelli): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar bwysigrwydd cyllid Ewropeaidd i orllewin Cymru?**
OAQ(4)0462(FIN)**W**

10. **Julie Morgan (Gogledd Caerdydd):** Pa flaenoriaethau a gaiff eu hystyried gan Lywodraeth Cymru wrth ddyrannu cyllid i'r portffolio Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol? OAQ(4)0465(FIN)

11. **Darren Millar (Gorllewin Clwyd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar unrhyw addasiadau i'r dyraniad adrannol y mae'n disgwyl eu gwneud yn y flwyddyn ariannol gyfredol? OAQ(4)0449(FIN)

12. **Russell George (Sir Drefaldwyn):** Pa ystyriaeth a roddwyd i anghenion canolbarth Cymru wrth baratoi'r gyllideb ddrafft ar gyfer 2015-16? OAQ(4)0452(FIN)

13. **Jenny Rathbone (Canol Caerdydd): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gyfanswm y dyraniad cyffredinol o'r gyllideb i'r portffolio Cyfoeth Naturiol yn 2015-16? OAQ(4)0460(FIN)**

14. **Eluned Parrott (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar lwyddiant Cymru o ran cael mynediad i gyllid yr UE? OAQ(4)0454(FIN)

15. **Gwyn Price (Islwyn):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ba drafodaethau sydd wedi'u cynnal â Llywodraeth y DU ar ddiwygio fformiwla Barnett? OAQ(4)0458(FIN)

## Gofyn i'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

1. **Peter Black (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar rôl y broses graffu o fewn llywodraeth leol? OAQ(4)0460(PS)

2. **William Graham (Dwyrain De Cymru):** A yw'r Gweinidog yn bwriadu cyhoeddi unrhyw ganllawiau i awdurdodau lleol ynghylch darparu gwasanaethau anstatudol? OAQ(4)0475(PS)

3. **Jeff Cuthbert (Caerffili):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gydweithio rhwng gwasanaethau cyhoeddus yng Nghaerffili? OAQ(4)0465(PS)

4. **Jenny Rathbone (Canol Caerdydd):** Faint o awdurdodau lleol sydd wedi dangos parodrwydd i archwilio'r syniad o uno gwirfoddol? OAQ(4)0473(PS)

5. **Joyce Watson (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y Papur Gwyn ar ddiwygio llywodraeth leol? OAQ(4)0477(PS)

6. **Lindsay Whittle (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gynlluniau Llywodraeth Cymru i ddiwygio gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru? OAQ(4)0462(PS)

7. **John Griffiths (Dwyrain Casnewydd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ddiwygio llywodraeth leol yn dilyn adroddiad Comisiwn Williams? OAQ(4)0472(PS)

8. **Jenny Rathbone (Canol Caerdydd):** Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i ddiogelu merched rhag anffurfio organau cenhedlu benywod? OAQ(4)0474(PS)

9. **Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gynlluniau Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â cham-drin domestig ymysg cymunedau lleiafrifol yng Nghymru? OAQ(4)0461(PS)

10. **Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynglŷn a thrafodaethau diweddar y mae wedi'u cynnal ynghylch uno cynghorau? OAQ(4)0471(PS)**W**

11. **Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar doriadau i wasanaethau awdurdodau lleol? OAQ(4)0463(PS)

12. **Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar wasanaethau democrataidd y mae awdurdodau lleol yn eu darparu? OAQ(4)0469(PS)

13. **David Rees (Aberafan):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y trafodaethau y mae wedi'u cael gyda'r Gwasanaethau Tân ac Achub ledled Cymru yn sgil diwygiadau posibl i wasanaethau cyhoeddus? OAQ(4)0467(PS)

14. **Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar sut y bydd diwygio llywodraeth leol yn effeithio ar ymgysylltiad democrataidd? OAQ(4)04678(PS)**W**

15. **Lynne Neagle (Torfaen):** Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o effaith y gyllideb ddrafft ar wasanaethau llywodraeth leol yn Nhorfaen? OAQ(4)0468(PS)

## Gofyn i'r Cwnsler Cyffredinol

**1. Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Cwnsler Cyffredinol wneud datganiad ar drafodaethau ynghylch creu awdurdodaeth ar wahân i Gymru? OAQ(4)0068(CG)**W**

**2. Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa drafodaethau mae’r Cwnsler Cyffredinol wedi cynnal ynglŷn ag oblygiadau dyfarniad y Goruchaf Lys ynglŷn â Deddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014? OAQ(4)0069(CG)**W**